

Eitem / Item	Dyddiad / Date
46.9	09-02-2026
Teitl / Title	Er / For
Hinsawdd a Natur: Diweddariad Grŵp Cyflawni'r BGC : Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA)	Trafodaeth a chytundeb
Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues	
Yn dilyn penodi Miller Research, mae'r camau cychwynnol ar gyfer paratoi Asesiad Risg Newid Hinsawdd Rhanbarthol (Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) wedi dechrau i ddarparu sylfaen sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cynllunio addasiadau ar gyfer y dyfodol a datblygu cynlluniau Llesiant Lleol. Mae ymchwil desg yn cael ei chynnal ynghyd â blaenoriaethu'r risgiau, a threfnwyd tair sesiwn gweithdy i randdeiliaid ar 15fed Ionawr, y 29ain Ionawr a 4ydd Chwefror. Roedd y sesiwn gweithdy gychwynnol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr yn weithdy lleol penodol i Geredigion, gan roi cyfle i 15 o fynychwyr o bartneriaid BGC Ceredigion ystyried blaenoriaethu risgiau hinsawdd ar gyfer y Sir. Gwnaeth y gwaith hwn ddod â Cheredigion yn unol â gwaith blaenorol a wnaed yn Sir Gaerfyrddin i baratoi ar gyfer y sesiynau gweithdy canlynol. Cynhaliwyd un sesiwn gweithdy ar y cyd ar 29ain Ionawr, ar ôl sicrhau 15 o fynychwyr, ac mae'r sesiwn olaf wedi'i threfnu i ddigwydd ar 4ydd Chwefror. Byddem yn annog partneriaid y BGC i ymgysylltu â'r gwaith hwn a nodwch, er mwyn ategu'r sesiynau gweithdy ymhellach, fod trafodaethau rhanddeiliaid unigol yn cael eu trefnu gan Miller gyda swyddogion arweiniol allweddol sydd wedi'u lleoli o fewn sefydliadau partner y BGC. Mae rhestr gyswllt gychwynnol ar gyfer Miller yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Dyfed Powys a Phrifysgol Aberystwyth, fodd bynnag, byddem yn annog unrhyw bartner ychwanegol i gysylltu â ni os ydynt wedi methu'r sesiynau gweithdy ac yn dymuno ymgysylltu'n uniongyrchol â Miller Research trwy'r trafodaethau rhanddeiliaid hyn. Wrth ystyried eich ymateb i'r gwaith hwn, nodwch y cefndir canlynol: Mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar gymunedau, gwasanaethau a'r amgylchedd naturiol ledled Cymru, trwy lifogydd, tywydd eithafol, effeithiau ar iechyd a lles, a phwysau ar ecosystemau, seilwaith a chymunedau lleol. Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb ar y cyd i ddeall y	

risgiau hyn a chynllunio'r ffordd orau o ymateb dros y tymor byr, canolig a hir.

Bydd eich mewnbwn uniongyrchol mewn llywio'r Gofrestr Risg Sylfaenol ar y Cyd yn helpu i sicrhau bod y CCRA yn ymarferol, yn berthnasol, yn lleol, ac yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf.

Bydd Miller Research yn adrodd i'r BGC ar ôl cwblhau'r cam hwn o'i gwaith, a drefnir i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Goblygiadau Ariannol / Financial Implications

Dim

Argymhellion / Recommendations

I weithredu'r cais am gymorth ar y cyd gyda'r darn hanfodol hwn o waith.

Atodiadau / Attachments

/

Swyddog Adrodd / Reporting Officer

Richard Dearing, Cadeirydd Grwp Gwaith Newid Hinsawdd a Natur